Swyddog Gwirfoddol

Prawf Synnwyr Sefyllfaol

Cyfarwyddyd i Gyfranogwyr

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am y Prawf Synnwyr Sefyllfaol i Swyddogion Gwirfoddol. Mae'n disgrifio pam fod y prawf hwn yn cael ei ddefnyddio, beth fydd fformat y prawf a sut allwch ymdrin â'r sesiwn brofi.

Pam y gofynnir i mi wneud prawf?

Defnyddir y prawf hwn ar y cyd â gwybodaeth arall am brofiad a doniau pobl, er mwyn asesu a oes gan rywun y cryfderau, agweddau ac ymddygiadau iawn i fodloni anghenion y swydd. Mae'r prawf hwn wedi'i ddewis oherwydd ei fod yn asesu gallu sydd wedi'i nodi fel yn bwysig ar gyfer llwyddo i gyflawni'r rôl.
Mae defnyddio'r math hwn o brawf yn cynnig nifer o fanteision, gan gynnwys:

- Rhoi dull gwrthrychol o asesu pobl yn seiliedig ar feini prawf perthnasol i swydd
- Rhoi cyfle i ymgeiswyr ddangos eu cryfderau a'u gallu

Beth yw'r Prawf Synnwyr Sefyllfaol i Swyddogion Heddlu?

Mae Prawf Synnwyr Sefyllfaol i Swyddogion Heddlu yn asesu eich gallu i farnu effeithiolrwydd ymatebion gwahanol i sefyllfaoedd yn y gweithle. Yn y prawf cewch gyfres o senarios sy'n adlewyrchu sefyllfaoedd heriol y gallwch eu hwynebu wrth weithio mewn rôl Swyddog Gwrifoddol. Ar gyfer pob cwestiwn byddwch yn derbyn disgrifiad byr o sefyllfa. Gallwch ddewis o bedair gweithred y gallwch gymryd mewn ymateb i'r sefyllfa o'ch blaen. Mae gofyn i chi raddio pob un o'r gweithredoedd yn nhermau eu heffeithiolrwydd wrth ymdrin â'r senario. Mae'r raddfa y gofynnir i chi raddio'r gweithrediadau i weld isod.

Gwrthgynhyrchiol	Aneffeithiol	Ychydig yn Effeithiol	Effeithiol	Effeithiol Iawn
Cam amhriodol a fydd yn cael effaith negyddol neu'n gwneud y sefyllfa'n waeth.	Cam gwael na fydd yn gymorth wrth ddatrys y sefyllfa.	Cam a fyddai'n cael ychydig o effaith gadarnhaol ar y sefyllfa.	Cam a fyddai'n cael ychydig o effaith gadarnhaol ar y sefyllfa.	Un o'r camau gorau a ellid ei gymryd i ddatrys y sefyllfa.

© 2018 PSI Services LLC, All Rights Reserved

Nid yw'r prawf angen unrhyw wybodaeth arbenigol i'w gwblhau. Dylai eich ymatebion fod yn seiliedig yn unig ar y wybodaeth a geir ym mhob senario.

Isod, mae dau senario enghreifftiol, sy'n debyg i'r rhai hynny a ofynnir i chi pan fyddwch yn gwneud y Prawf Synnwyr Sefyllfaol i Swyddogion Heddlu. Gwnaiff hyn eich cynorthwyo i ddeall fformat y senarios a'r camau.

Dylech ystyried effeithiolrwydd bob cam o ran eich ymateb cyntaf i'r senario a gyflwynir. Dylech raddio bob cam yn annibynnol o'r camau eraill a gyflwynir. Gallwch deimlo y byddech yn cymryd cam gwahanol i'r hyn a gyflwynir. Er hynny, dylech ganolbwyntio ar raddio effeithiolrwydd y pedwar cam a gyflwynir mewn gwirionedd.

Senario Enghreifftiol 1

Rydych yn gweithio drwy'r gwaith papur pan gewch alwad brys i fynd i ddigwyddiad mewn busnes lleol. Rhaid i chi adael popeth fel y mae a mynd ar unwaith. Pan fyddwch yn dychwelyd i'r orsaf awr yn ddiweddarach, mae hi bron yn amser gorffen ond nid yw eich gwaith papur wedi cwblhau. Nid yw'r swyddogion eraill ar eich shifft i fod i orffen am dair awr arall.

Graddiwch effeithiolrwydd y camau canlynol:

	Gwrthgyn-hyrchiol	Aneffeithiol	Ychydig yn Effeithiol	Effeithiol	Effeithiol Iawn
Adolygwch y gwaith papur a phenderfynwch beth sy'n rhaid ei gwblhau heddiw a beth gall aros tan y byddwch i mewn nesaf.	○	○	○	○	○
Trafodwch y mater gyda'ch Rheolwyr a gofynnwch am eu cyngor ar beth i wneud gyda'r gwaith papur sydd ar ôl.	○	○	○	○	○
Gofynnwch i swyddog arall am help i gwblhau eich gwaith papur i gyd a rhannwch y tasgau sydd yn weddill rhyngoch chi'ch dau.	○	○	○	○	○
Treuliwch weddill yr amser sydd gennych yn briffio swyddog arall am y gwaith papur sydd yn weddill a gofynnwch iddynt ei gwblhau dros y tair awr.	○	○	○	○	○

Senario Enghreifftiol 2

Rydych wedi nodi ardal ar stad leol sydd ag enw drwg am ymddygiad anghymdeithasol. Mae grŵp o bobl ifanc wedi bod yn ymgynnull tu allan i ganolfan gymunedol ac yn codi ofn ar y rhai sy'n mynd yno. Rydych wedi siarad â nifer o'r trigolion lleol i nodi'r prif bryderon a pha gamau yr hoffent i'r heddlu eu cymryd. Mae'r trigolion eisiau i'r ieuenctid gael eu symud a'u hatal rhag ymgynnull yn yr ardal hon.

Graddiwch effeithiolrwydd y camau canlynol:

	Gwrthgyn-hyrchiol	Aneffeithiol	Ychydig yn Effeithiol	Effeithiol	Effeithiol Iawn
Cyn gweithredu o gwbl, casglwch fwy o wybodaeth am y bobl ifanc oddi wrth bartïon perthnasol, fel swyddogion prawf a gweithwyr cymdeithasol, a cheisiwch eu safbwyntiau ar yr hyn ddylid ei wneud.	○	○	○	○	○
Nid yw'r bobl ifanc yn cyflawni trosedd, felly eglurwch wrth drigolion lleol y byddwch yn cofnodi a monitro'r sefyllfa am rŵan rhag ofn ei fod yn gwaethygu.	○	○	○	○	○
Gwasgarwch y bobl ifanc a'u hatal rhag ymgynnull tu allan i'r ganolfan gymunedol, er enghraifft drwy batrolau mwy rheolaidd.	○	○	○	○	○
Siaradwch â'r bobl ifanc yn uniongyrchol ynghylch pam eu bod yn ymgynnull tu allan i'r ganolfan gymunedol a nodwch rhai 'gweithgareddau tynnu sylw' priodol ar eu cyfer, fel chwaraeon neu gerddoriaeth.	○	○	○	○	○

Pan fyddwch yn gwneud y prawf, gofynnir i chi gwblhau ystod o senarios sy'n debyg i'r senarios enghreifftiol hyn. Cewch gyfarwyddiadau llawn am y prawf cyn i chi ddechrau. Nid yw'r prawf wedi'i amseru ond dylai gymryd oddeutu 30 i 35 munud i'w gwblhau.

Wrth ymateb i'r senarios, cofiwch am y pwyntiau canlynol:

- Meddyliwch am yr hyn yw'r meini prawf gwneud penderfyniadau pwysig o ran y senario penodol. Beth yw'r brif flaenoriaeth? Sut fydd canlyniad llwyddiannus yn edrych?
- Ystyriwch ganlyniadau tebygol bob cam o ran y sefyllfa. Beth fydd yr effaith? Pwy fydd yn cael eu heffeithio? Sut maent am ymateb?

© 2018 PSI Services LLC, All Rights Reserved

Paratoi ar gyfer y Sesiwn Brofi

- Sicrhewch eich bod yn cael noson dda o gwsg cyn i chi gymryd y prawf.
- Os ydych fel arfer yn gwisgo sbectolau neu lensys cyswllt, sicrhewch eich bod yn eu gwisgo pan fyddwch yn cymryd y prawf.

Yn ystod y Sesiwn Brofi

- Dilynwch y cyfarwyddiadau ar gyfer y prawf yn ofalus.
- Os ydych yn ansicr am unrhyw beth, siaradwch â gweinyddwr y prawf cyn i chi ddechrau.
- Darllenwch bob senario a'r camau'n drwyadl.
- Ceisiwch beidio â chynhyrfu a chanolbwyntio ar gyflawni i'r gorau eich gallu.

Pob lwc gyda'r prawf. Gobeithiwn i chi weld defnydd yn y cyfarwyddyd hwn.

© 2018 PSI Services LLC, All Rights Reserved